# Cyfarfod rhwng y Gweinidog a'r Trydydd Sector i drafod yr Economi a Seilwaith

**Nodyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 yn Ystafell Gynadledda Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Hywel**

**Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol**

*Llywodraeth Cymru*

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Economaidd
Dewi Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cynllunio Trafnidiaeth, Polisi a Phartneriaethau
Stephen Layne, Uwch Ddadansoddwr Polisi, Polisi Economaidd

*Cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector*

| | |
|---|---|
| Matthew Brown | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Linda Thomas | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Matt Appleby | Busnes yn y Gymuned |
| Brychan Tudor | Celfyddydau Anabledd Cymru |
| Kate Evans | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Peter Williams | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| David Williams | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Jamie Burt | Siawns Teg |
| Peter Jones | Cŵn Tywys Cymru |
| Jessica McQuade | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Kate McColgan | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| Eluned Parrott | Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru |
| Hazel Lloyd Lubran | Cymorth i'r Trydydd Sector yng Nghymru |

*Ymddiheuriadau*

| | |
|---|---|
| Lynne Hill | Plant yng Nghymru |
| Catriona Williams | Plant yng Nghymru |
| David Smith | Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru |
| San Leonard | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Gareth Coles | Celfyddydau Anabledd Cymru |

**Eitem 1 – Cyflwyniadau, cofnodion a'r camau a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf**

1. Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet groeso i bawb gan ofyn iddynt gyflwyno'u hunain.

2. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a oedd pawb yn fodlon ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. Cafodd y Grŵp y wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf. I grynhoi:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau i adolygu'r canllawiau ar docynnau teithio rhatach.

- Cyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru bapur yn esbonio sut mae busnesu cymdeithasol yn mesur eu heffaith cynaliadwy.

- Dosbarthwyd manylion cyswllt y swyddog sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r gwaith yn ymwneud â'r economi gylchol.

- Cyflwynwyd yr amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r cyfrifiad a'r fframwaith mentrau cymdeithasol, a oedd yn nwylo cwmni annibynnol.

**Eitem 2 – Hynt y Fforwm Trafnidiaeth Hygyrch**

4. Amlinellodd Llywodraeth Cymru rai o'r pynciau a drafodwyd yng nghyfarfod y Panel Trafnidiaeth Hygyrch a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2018 (mae crynodeb o'r pynciau yn Atodiad A).

5. Clywodd y Grŵp am hynt y gwaith o ddiwygio'r gwasanaethau bws. Roedd hyn yn cynnwys y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru i gynnal Adolygiad o'r Strategaeth Bysiau. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn ddechrau 2019.

6. Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu tri achos busnes i:

   - Ddatblygu system drafnidiaeth ymatebol integredig.
   - Datblygu rhwydwaith cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio a'i integreiddio'n dda, gan gynnwys seilwaith gwell a gwasanaethau mwy dibynadwy.
   - Gwella'r trefniadau gwerthu tocynnau a'r cymorth cefn swyddfa.

7. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru.

8. Yn ogystal â gwaith Trafnidiaeth Cymru, esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau deddfwriaethol posibl y byddai eu hangen i ddiwygio'r diwydiant bysiau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyhoeddi Papur Gwyn i ymgynghori yn ei gylch fis Rhagfyr 2018.

9. Cyfeiriodd y Gymdeithas Cludiant Cymunedol at eu pryderon ynghylch y broses adolygu. Amlinellwyd y rhain yn y papur yn rhoi eu sylwadau cychwynnol ar yr ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Bysiau o dan Eitem 5 ac roeddent yn cynnwys:

   - Y gallu i ymgysylltu'n llawn o ystyried yr amserlen uchelgeisiol.
   - Y ffaith nad oedd Cludiant Cymunedol yn rhan o'r gwaith modelu.
   - Gallai'r math o fodelau y penderfynwyd eu defnyddio ddiystyru anghenion grwpiau agored i niwed.
   - Pwysigrwydd deall anghenion lleol, a chynllunio ar sail y rhain.

10. Cyfeiriodd y Gymdeithas Cludiant Cymunedol at y datblygiadau cadarnhaol ers drafftio’r papur, a oedd yn mynd i’r afael â’r problemau hyn.

11. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cydnabod cyfraniad pwysig Cludiant Cymunedol at ecosystem trafnidiaeth Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ymgysylltu â’r Gymdeithas Cludiant Cymunedol, Pobl Hŷn Cymru, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a gweithredwyr i dreialu modelau cyflenwi lefel uchel. Ar ôl penderfynu pa fodelau lefel uchel y gellid eu rhoi ar waith yn ymarferol, byddant yn datblygu cynigion manylach gyda chyfraniad amrywiaeth lawer ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys teithwyr. Mae Trafnidiaeth Cymru yn modelu gwasanaethau bws masnachol a gwasanaethau cludiant cymunedol ac mae’n deall bod trafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig o bwysig i deithwyr agored i niwed nad yw dulliau eraill o deithio ar gael iddynt. Esboniwyd trefniadau llywodraethu’r adolygiad.

12. Dywedodd y Gymdeithas Cludiant Cymunedol eu bod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i dreialu cynllun yng Ngwynedd, yn seiliedig ar y model cydweithredol. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ystyried y cynnig ac i benderfynu a fyddai’n bosibl cysylltu’r cynigion ar gyfer system drafnidiaeth werdd, a oedd yn cael ei hyrwyddo gan Fargen Twf Gogledd Cymru, gyda’r cynllun peilot, os penderfynir bwrw ymlaen â’r cynllun hwnnw.

***Cam i’w gymryd: Llywodraeth Cymru i ystyried gweithio gyda Chymdeithas Cludiant Cymunedol i ddatblygu model cydweithredol yng Ngwynedd.***

<u>Adolygu Gwasanaethau Bws yng Nghymru</u>

**Eitem 3 – Paratoi i adael yr UE**

13. Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet am yr ansicrwydd a oedd yn parhau ynghylch canlyniadau’r trafodaethau a’r perygl na fyddai cytundeb. Ni fyddai modd mesur canlyniadau hynny i fusnesau, cymunedau ac unigolion.

14. Tanlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i baratoi at bob posibilrwydd a bod y Gronfa Pontio, gwerth £50 miliwn, yn enghraifft o’r camau roedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd.

15. Esboniodd y swyddogion drefniadau mewnol Llywodraeth Cymru. Yn y bôn, roedd un tîm canolog a oedd gyfrifol am y gwaith pontio a’r gwaith cydgysylltu’n gyffredinol, ac roedd adrannau unigol yn bwydo i waith y tîm hwn. Roedd yr Economi a Thrafnidiaeth yn dilyn yr un patrwm.

16. Esboniwyd na all Llywodraeth Cymru gynllunio ar ei phen ei hun a bod trafodaeth adeiladol, agored ac amserol gyda Llywodraeth y DU yn hanfodol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn y modd y mae Llywodraeth y DU yn gweithredu, ac mae rhai o’i hadrannau, fel yr Adran Masnach Ryngwladol, yn amharod i drafod a rhannu gwybodaeth.

17. Esboniwyd hefyd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi 77 o Hysbysiadau Technegol ar adael yr UE hyd yma, a’i bod yn debygol y bydd set arall o Hysbysiadau Technegol ar gael yn fuan.

18. Caiff Llywodraeth Cymru rybudd byr iawn o'r Hysbysiadau Technegol hyn a chaiff ei chyfyngu i roi sylwadau ar eu heffaith ar y setliad datganoli'n unig, ac ni chaiff ddylanwadu ar y polisïau sydd wedi'u cynnwys ynddynt.

19. Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru wedi lansio Porth Brexit ar blatfform Busnes Cymru yn ddiweddar, er mwyn helpu busnesau yn ystod y broses o adael yr UE. Caiff y cynnwys ei ddiweddaru'n gyson wrth i'r trafodaethau barhau. Mae'n cyfuno porth gwybodaeth ac offeryn diagnosis.

20. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r WCVA, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, wedi sefydlu prosiect i helpu'r trydydd sector i ymwneud mwy â'r drafodaeth ar adael yr UE ac i ddylanwadu mwy arni - sef "Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit". Trafododd y Grŵp bwysigrwydd hyn gan y byddai'n cyd-fynd â Phorth Brexit a'r angen i osgoi dyblygu gwaith ac anfon negeseuon cymysg.

- Tanlinellwyd pwysigrwydd sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu gwaith.

- Roedd safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol yn glir ac, yn gryno, roedd o'r farn na ddylai Cymru gael yr un geiniog yn llai na'r cyllid presennol, ac y dylid datganoli'r cyllid i Gymru.

- Fodd bynnag, nid yw bwriad Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn glir a gallai hyn esgor ar ddadl gynhennus iawn. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n bwysig bod Cymru yn siarad ag un llais.

- Mae'r trydydd sector yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru a bydd yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i gyflwyno'r neges na ddylai Cymru golli unrhyw gyllid ac mai Cymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU, ddylai benderfynu sut i'w wario.

- Mae angen canolbwyntio ar yr agweddau ymarferol ar gynnal busnes ar ôl gadael yr UE. Gan hynny, mae'n bwysig bod Porth Brexit yn rhoi cyngor clir a chyson ynghylch y goblygiadau ymarferol yn hytrach na chyflwyno dadleuon gwleidyddol neu gyfansoddiadol.

**Eitem 4 – Y Contract Economaidd a'r Cynllun Gweithredu Carbon Isel**

21. Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet groeso i Jessica McQuade gan ofyn iddi gyflwyno'r papur a baratowyd gan Gyswllt Amgylchedd Cymru. Gwnaeth y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd croeso cyffredinol i'r pwyslais ar ddatgarboneiddio yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ond roedd teimlad cryf bod agweddau amgylcheddol eraill yn cael eu diystyru yn y Cynllun yn gyffredinol ac yn y Contract Economaidd yn benodol.

- Mae angen rhoi mwy o bwyslais yn y Cynllun ar y modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu disbyddu ac y mae bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yn cael eu diraddio.

- Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru (a) datblygu dulliau newydd o asesu'r risgiau amgylcheddol cysylltiedig â disbyddu adnoddau naturiol; (b) ehangu'r Contract Economaidd i fesur yr effaith amgylcheddol lawn a gaiff busnes, nid dim ond ei ôl troed carbon; ac (c) ystyried targed carbon isel mwy heriol.

22. Wrth ymateb, estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i Gyswllt Amgylchedd Cymru gyflwyno cynigion manylach i'w hystyried yng nghyswllt y pecyn cymorth asesu.

***CAM I'W GYMRYD: Cyswllt Amgylchedd Cymru i roi rhagor o fanylion i'w hystyried i ddatblygu pecyn cymorth asesu i helpu i fesur effaith amgylcheddol y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.***

23. Fodd bynnag, tanlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r swyddogion na fyddai unrhyw newidiadau i'r Contract Economaidd. Tynnwyd sylw at y ffaith mai ethos y Contract Economaidd oedd canolbwyntio ar newid ymddygiad a diwylliant yn y tymor hir drwy greu perthynas 'rhoi rhywbeth am gael rhywbeth' gyda busnesau.

24. Ar wahân i'r cymhlethdod, os bydd y Contract Economaidd yn ehangu er mwyn cynnwys gofynion ychwanegol, bydd busnesau yn gwrthod bod yn rhan o'r broses; dim ond drwy ennyn eu diddordeb y gallwn ddylanwadu arnynt a sicrhau bod eu hymddygiad yn newid. At hyn, cyfeiriwyd at y ffaith na ddylid ystyried amodau'r Contract Economaidd ar eu pennau'u hunain nac mewn modd cyfyngedig. Yr hyn a ddysgwyd wrth gymhwyso'r Contract Economaidd hyd yma yw bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn awr yn cael trafodaethau dyfnach ac ehangach â busnesau.

25. Roedd cytundeb cyffredinol am bwysigrwydd cyflwyno neges gref i fusnesau bod cyfleodd ynghlwm wrth dwf clyfar a gwyrdd a bod y Contract Economaidd yn helpu yn y cyswllt hwn.

26. Mae swyddogion yn gobeithio ehangu'r canllawiau mewnol sydd ar gael i staff sy'n defnyddio'r Contract Economaidd, ac mae enghreifftiau o lwyddiant yn allweddol yn y cyswllt hwn. Tanlinellwyd hefyd fod swyddogion yn ceisio sicrhau gwelliant parhaus drwy gyfeirio busnesau at sefydliadau a chyrff a all roi cyngor iddynt i'w helpu i wella a llwyddo i fodloni gofynion y Contract Economaidd. Roedd nifer o'r cyrff a oedd yn bresennol, gan gynnwys Canolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Busnes yn y Gymuned yn awyddus i fod yn rhan o'r rhaglen hon.

***CAM I'W GYMRYD: Swyddogion i barhau i drafod â chyrff yn y Trydydd Sector i benderfynu sut y byddant yn gwybod eu bod wedi llwyddo i fodloni gofynion y Contract Economaidd ac i'w cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chyngor.***

27. Daeth y cyfarfod i ben a chytunodd y swyddogion i anfon gwybodaeth am ddyddiad a threfniadau'r cyfarfod nesaf.

***CAM I'W GYMRYD: Swyddogion i drefnu'r cyfarfod nesaf.***

DIWEDD

**Atodiad A**

Hyfforddi Staff y Gwasanaethau Trafnidiaeth

Cafodd y Panel gyflwyniad ar yr hyfforddiant y mae Cyngor Sir Penfro yn ei gynnig i yrwyr bws lleol i godi ymwybyddiaeth o broblemau pobl anabl, a hynny er mwyn gwella gwasanaethau cwsmeriaid. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys clipiau fideo a oedd yn egluro sut roedd pobl yn defnyddio'r gwasanaethau bws lleol a rôl cynllun y bydis bws yn ardal yr awdurdod lleol. Gofynnodd y Panel a fyddai modd i'r pecyn hyfforddi roi sylw i'r canlynol:

- Y problemau sy'n wynebu pobl sydd wedi colli eu golwg a'u clyw pan fyddant yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; a

- Wrth gynllunio gwasanaethau, mae angen sicrhau bod yr amserlenni'n ystyried yr amser sydd ei angen ar bobl i fynd ar/oddi ar y bws yn ddiogel.

Ar wahân i rai mân broblemau cynhyrchu, cymeradwywyd yr hyfforddiant a chytunwyd y dylai fod ar gael ledled Cymru. Dylai Sir Benfro roi crynodeb o'r hyfforddiant i Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn iddo'i ystyried. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r awdurdod ar hyn o bryd i ddiwygio'r pecyn hyfforddi.

Canllawiau i Awdurdodau Lleol wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael tocynnau consesiynol gorfodol

Trafododd y Panel y Canllawiau ar y Cynllun Teithio am Ddim ar Fysiau a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2014. Roedd yr Aelodau'n poeni am y ffaith bod modd dehongli'r canllawiau mewn ffyrdd gwahanol ac roedd hyn wedi creu anghysondeb rhwng awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â rhoi tocynnau bws am ddim i bobl anabl. Un pryder penodol arall oedd y modd roedd ceisiadau myfyrwyr anabl yn cael eu trin os oedd eu cyfeiriad parhaol y tu allan i Gymru.

Gofynnodd y Panel i'r swyddogion argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet drefnu i'r canllawiau gael eu hadolygu a'u diwygio fel y bo'n briodol *(Ysgrifennydd y Cabinet - roedd ei ymateb o dan eitem 1 yn cadarnhau ei fwriad i ystyried pecyn eang o fesurau i hybu trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru ac, fel rhan o'r gwaith hwnnw, i barhau i adolygu'r canllaw ar Docynnau Teithio Rhatach Gorfodol)*.

Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ynghylch rhoi gwybodaeth hygyrch am Wasanaethau Bws Lleol

Nododd y Panel fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch rhoi gwybodaeth hygyrch i deithwyr wedi'i gyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth ar 8 Gorffennaf. Roedd yr argymhellion a gyflwynwyd wrth ymgysylltu â swyddogion yr Adran Drafnidiaeth yn ystod y cyfarfod blaenorol wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Medi ac mae Llywodraeth Cymru yn aros i weld yr argymhellion a gynigiwyd.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Cludiant Cymunedol

Clywodd y Panel fod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi sôn wrth Lywodraeth y DU am effaith y newidiadau arfaethedig ar y sector cludiant cymunedol yng Nghymru. Nid yw gweithredwyr yn cael trwydded os bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu o dan gontract.

Gwella gorsafoedd fel rhan o raglen Mynediad i Bawb Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda diwydiant rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a nifer o awdurdodau lleol i enwebu gorsafoedd y dylid buddsoddi ynddynt i sicrhau eu bod yn hygyrch. Mae Llywodraeth y DU wedi galw am enwebiadau erbyn 16 Tachwedd ac mae £300 miliwn ar gael i'w wario fel rhan o raglen Cymru a Lloegr yn ystod cyfnod 6, a fydd yn para pum mlynedd o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae meini prawf Llywodraeth y DU ar gyfer y rhaglen yn cynnwys y nifer sy'n ymweld â'r orsaf, nifer yr achosion o anabledd a gofnodwyd yn y dalgylch, sylwadau gan grwpiau defnyddwyr ac eraill, a gallu'r orsaf i sicrhau buddsoddiad cyfatebol gan drydydd partïon.

Nid yw bron hanner gorsafoedd Cymru a'r Gororau yn hygyrch gan fod ganddynt stepiau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi codi hyn yn aml gyda Llywodraeth y DU, gan nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli. Caiff y gorsafoedd a enwebir eu cyflwyno i Weinidogion Cymru y mis hwn a'r bwriad yw eu cyflwyno i Aelodau'r Cynulliad er mwyn rhoi cyfle iddynt anfon sylwadau'n uniongyrchol at Lywodraeth y DU.

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (Cymru'n Un: Cysylltu Cymru 2008) yn ddogfen statudol y bu'n rhaid ei chynhyrchu o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru sy'n cynnwys ei bolisïau a'r modd y cânt eu rhoi ar waith. Mae'r un Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Strategaeth Drafnidiaeth yn gyson ac yn eu galluogi i'w diwygio o bryd i'w gilydd.

Gwelwyd nifer o ddatblygiadau ers cyhoeddi'r Strategaeth yn 2008, fel datgarboneiddio a'r dyletswyddau sy'n codi o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, o ganlyniad, mae angen Strategaeth newydd.

Bwriedir disodli Strategaeth Trafnidiaeth Cymru drwy gynhyrchu datganiad polisi trosfwaol a gaiff ei ategu gan nifer o ddatganiadau polisi thematig. Bydd y datganiad polisi trosfwaol yn esbonio sut y bydd trafnidiaeth yn gweithio i sicrhau bod y pedair prif thema yn Ffyniant i Bawb yn cael eu rhoi ar waith.

Hyd yma, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori mewnol gyda chydweithwyr ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn deall sut y gallai Strategaeth Trafnidiaeth newydd helpu i gyflawni blaenoriaethau, cynlluniau a strategaethau eraill. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd tair sesiwn ymgynghori arall yn Wrecsam, Nantgarw ac Aberystwyth ym mis Medi 2018 (gwahoddwyd rhanddeiliaid mewnol ac allanol) mewn cydweithrediad â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf.

Ystyrir y byddai'n briodol cyhoeddi'r ddogfen fis Mai 2020 gan ddangos ymrwymiad y Llywodraeth i'r broses, ac i sicrhau bod digon o amser ar gael i gynnal trafodaeth ystyrlon ac i ymgymryd â phroses ddibynadwy o gasglu tystiolaeth gan adrannau gwahanol yn y Llywodraeth.